

**CYNLLUN GWEITHREDU NEW HALL mewn ymateb i'r Adroddiad yn dilyn arolygiad ar
21/22 Chwefror 2013**

	Maes a nodwyd	Camau	Camau gan	Amserlen
	Pryder			
1	Mae angen cynnal adolygiad ar frys o'r lefelau staffio ar ward Glaslyn. Nid yw'r staffio yn ddigonol ar y ward hon gan fod claf yn cael ei arsylwi 3:1.	Rydym yn derbyn bod y lefelau staffio'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar fore'r arolygiad oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld ac unionwyd y lefelau staffio erbyn y prynhawn. Hefyd, mae staff newydd wedi eu cyflogi yn lle rhai sydd wedi gadael yn ddiweddar a byddant yn dechrau yn eu swyddi ym mis Ebrill.	John Bromfield, Pennaeth Nyrsio. Linda Hull, Rheolwr y Ward	Wedi ei gwblhau
		Matrics Staffio wedi ei atodi	Sean Holcroft	Ebrill 2013 ac yn barhaus. Mae'r lefelau staffio yn cael eu hadolygu'n barhaus
2	Roedd penderfyniadau'n parhau i gael eu gwneud ar sail fypwyol, er gwaethaf cadarnhad gennych yn dilyn ein hymweliad blaenorol fod hyn wedi derbyn sylw. Ar ward Clwyd, roedd y cleifion wedi eu cyfyngu i gael dim mwy na 10 CD/DVD yn eu hystafell wely, ac 20 oedd nifer y disgiau a ganiateid ar ward Glaslyn. Dylid seilio penderfyniadau ar asesiad risg unigol ac nid ar un rheol gyffredinol ar gyfer pawb.	Roedd y polisi ynglŷn wedi ei ddiwygio a'i ddisbarthu mewn ymateb i'r arolygiad diwethaf. Roedd copi wedi ei osod ar hysbysfyrdau'r staff. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad oedd rhai o'r staff wedi ei ddarllen. Mae'r polisi, sydd wedi ei seilio ar risg unigol, yn cael ei ail-lansio ar y ddwy ward. Mae copïau o'r polisi ar gael i'r holl staff a bellach mae'n ofynnol iddynt lofnodi i ddangos eu bod yn ymwybodol o'r polisi.	Sean Holcroft, Rheolwr yr ysbyty. Linda Hull, Rheolwr y Ward. Laura Roberts, Rheolwr y Ward.	Ebrill 2013
3	Mae angen i'r staff gael hyfforddiant mewn nifer o feysydd allweddol, gan	Hyfforddiant PoVA – mae mwy o sesiynau hyfforddi wedi eu trefnu	Alan Jones, Gweithiwr Cymdeithasol/Rheolwr Hyfforddiant yr Ysbyty	Ebrill/Mai 2013

	gynnwys Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), iechyd a diogelwch, atal argyfwng ac ataliad corfforol. Mae'r rhaid i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant diweddar yn y meysydd a nodwyd.	lechyd a Diogelwch – Ar hyn o bryd mae 70% o'r staff yn cydymffurfio. Mae mwy o sesiynau hyfforddi wedi eu trefnu.	Mark Dewsbury - Hyfforddwr	Ebrill/Mai 2013
		Atal Argyfwng ac Ataliad Corfforol – ar hyn o bryd mae 80% yn cydymffurfio. Gallwn ddarparu'r dyddiadau cyflawni perthnasol os oes angen.	Dave Williams, Hyfforddwr Nyrsio / Rheolwr Hyfforddi	Ebrill/Mai 2013
4	Roedd y lefelau diogelwch ar ward Clwyd a ward Adferiad yn ymddangos yn amhriodol, o ystyried mai wardiau adsefydlu oeddent. Mae angen cynnal adolygiad o'r lefelau diogelwch er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhy lem.	Byddwn yn fwy na bodlon i adolygu hyn os cawn ni esboniad manylach o'r union bryderon a nodwyd. Mae Ward Clwyd yn ward adsefydlu drws ar glo gan ei bod yn gam pellach na'r Uned Diogelwch Isel a'i bod yn derbyn cleifion na ellir eu trin mewn amgylchedd agored. Ward adsefydlu agored yw Adferiad.	Devan Moodley, Cyfarwyddwr Meddygol. Sean Holcroft, Rheolwr yr ysbyty, John Bromfield, pennaeth Nyrsio, Rheolwyr y Wardiau.	
5	Nodwyd nifer o faterion amgylcheddol yn ystod ein hymweliad. Roedd angen ailaddurno ward Clwyd a ward Adferiad. Yn benodol, roedd angen paentio'r waliau a gosod gorchudd llawr yn lle'r hen un; roedd y gwaith growtuo yn yr ystafelloedd ymolchi wedi llwydo; roedd angen cael gwared ar rai ffitiadau golau; ac roedd rhai dodrefn wedi torri, ac wedi eu trwsio'n wael. Mae'n rhaid llunio rhaglen gyflawn o ailaddurno, adnewyddu ac atgyweirio cyffredinol sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn ar y ddwy ward mewn modd amserol.	Mae'r holl faterion a nodwyd yn eich adroddiad yn derbyn sylw. Mae gan New Hall raglen lawn ar gyfer adnewyddu mewnol ac allanol erbyn hyn. Bydd yr holl waith yn cael ei gwblhau yn ystod y chwe mis nesaf. Bydd y materion addurno a nodwyd yn derbyn sylw o fewn un mis.	Uwch Reolwyr / Adran ystadau MHC	Ailaddurno – mis Mai 2013 Adnewyddu - mis Hydref 2013

6	<p>Nid oedd Therapydd Galwedigaethol yn gweithio ar ward Glaslyn. Mae'n bwysig penodi Therapydd Galwedigaethol fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael digon o therapi galwedigaethol.</p>	<p>Mae'r Therapydd Galwedigaethol locwm ar Ward Glaslyn wedi cael cynnig y swydd yn barhaol. Mae'r Uwch Therapydd Galwedigaethol bellach wedi dychwelyd ar ôl cyfnod mamolaeth i sicrhau bod gan y ddwy ran ddarpariaeth Therapi Galwedigaethol penodedig.</p>		Cwblhawyd
7	<p>Roedd rhai aelodau o staff asiantaeth wedi gweithio nifer sylweddol o oriau mewn un wythnos - roedd un gweithiwr asiantaeth wedi cofnodi 73 awr a 50 munud. Rhaid i'r staff beidio â gweithio oriau gormodol.</p>	<p>Cysylltwyd ag asiantaeth Jane Lewis a BS Services ynglŷn â hyn ac fe'u hatgoffwyd am eu cyfrifoldeb i sicrhau nad yw eu staff yn gweithio gormod o oriau. Hysbyswyd Rheolwyr y wardiau hefyd bod angen iddynt fonitro hyn.</p>	Sean Holcroft, Rheolwr yr Ysbyty, Rheolwyr y Wardiau	Cwblhawyd
		<p>Mae Polisi Goramser MHC yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Pan fydd wedi ei gytuno bydd yr asiantaethau'n cael eu hysbysu amdano er mwyn iddynt allu cydweithredu.</p>	Sean Holcroft, Rheolwr yr Ysbyty.	Erbyn mis Mehefin 2013